ystyr “lleithedd” (“moisture”) yw dwr a deunyddiau anwedol eraill a bennir yn unol â'r weithdrefn a nodir yn y dull dadansoddi ar gyfer lleithedd a bennir yn Rhan I o'r Atodiad i Gyfarwyddeb 71/393/EEC(a);

ystyr “lludw” (“ash”) yw'r mater sy'n deillio o drin porthiant yn unol â'r weithdrefn briodol a nodir yn y dull dadansoddi [ar gyfer lludw] a nodir ym Mhwynt 5 o'r Atodiad i Gyfarwyddeb 71/250/EEC(b);

mae i “micro-organedd” yr ystyr a roddir i “micro-organism” gan Erthygl 2(aa) o'r Gyfarwyddeb Ychwanegion;

mae i “milfeddyg cofrestredig” yr un ystyr â “registered veterinarian” yn y Gyfarwyddeb Porthiant Meddyginiaethol;

mae i “monograff” yr un ystyr â “monograph” yn y Gyfarwyddeb Ychwanegion;

mae i “nodyn adnabod” yr un ystyr ag sydd i “identification note” yn y Gyfarwyddeb Ychwanegion;

ystyr “olew” (“oil”) yw'r rhin a geir yn sgil trin porthiant yn unol â'r weithdrefn briodol a nodir yn y dull dadansoddi ar gyfer olewau a brasterau a bennir yn Rhan IV o'r Atodiad i Gyfarwyddeb 71/393/EEC(c);

mae i “porthiant”, yn ddarostyngedig i reoliad 12(11)(a), yr ystyr a roddir i “feeding stuff” gan adran 66(1) fel y'i diwygiwyd gan reoliad 18(1)(a);

ystyr “porthiant a fwriedir ar gyfer diben maethiadol penodol” (“feeding stuff intended for a particular nutritional purpose”) yw porthiant cyfansawdd, y mae ei gyfansoddiad neu ddull ei weithgynhyrchu yn ei wahaniaethu oddi wrth fathau eraill o borthiant ac oddi wrth y math o gynhyrchion o fewn y Gyfarwyddeb Porthiant Meddyginiaethol, ac y rhoddir unrhyw awgrym mewn perthynas ag ef y bwriedir ef ar gyfer diben maethiadol penodol;

ystyr “porthiant cyategol” (“complementary feeding stuff”), yn ddarostyngedig i reoliad 12(11)(a), yw porthiant cyfansawdd sy'n cynnwys llawer o sylweddau penodol ac nad yw, oherwydd ei gyfansoddiad, yn ddigon ar gyfer dogn dyddiol ond os caiff ei ddefnyddio mewn cyfuniad â mathau eraill o borthiant;

ystyr “porthiant cyfansawdd” (“compound feeding stuff”), yn ddarostyngedig i reoliad 12(11)(a), yw cymysgedd o fathau o borthiant;

ystyr “porthiant cyflawn” (“complete feeding stuff”), yn ddarostyngedig i reoliad 12(11)(a), yw porthiant cyfansawdd sydd, oherwydd ei gyfansoddiad, yn ddigon i sicrhau dogn dyddiol;

(b) before 1st September 1998, an application (which is pending) in respect of the establishment, was made to a competent authority in the Member State, in accordance with any requirements in the Member State for the making of such applications, to approve the establishment, pursuant to the Establishments Directive, as an establishment on which a compound feeding stuff of any such kind may be produced for the exclusive requirements of the producer's holding;

“energy value” (*gwerth egni*) means the energy value of a feeding stuff calculated in accordance with the relevant method specified in Schedule 1;

“establishment” (*sefydliad*) has the meaning given by Article 1.3(b) of the Establishments Directive;

“the Establishments Directive” (“y Gyfarwyddeb Sefydliadau”) means Council Directive 95/69/EC laying down the conditions and arrangements for approving and registering certain establishments and intermediaries operating in the animal feed sector and amending Directives 70/524/EEC, 74/63/EEC, 79/373/EEC and 82/471/EEC(a);

“European Economic Area Agreement” (“*Cytundeb Ardal Economaidd Ewrop*”) means the Agreement on the European Economic Area signed at Oporto on 2nd May 1992 as adjusted by the Protocol signed at Brussels on 17th March 1993(b)

“European Economic Area state” (“*gwladwriaeth Ardal Economaidd Ewrop*”) means a State which is a Contracting Party to the European Economic Area Agreement;

“fat” (“*braster*”) means the extract obtained following the treatment of a feeding stuff in accordance with the appropriate procedure set out in the method of analysis for oils and fats specified in Part IV of the Annex to Directive 71/393/EEC(c);

“feed material” (“*deunydd porthiant*”), subject to regulation 12(10)(b), means –

- (a) any product of vegetable or animal origin, in its natural state, fresh or preserved;
- (b) any product derived from such a product by industrial processing; or
- (c) any organic or inorganic substance,

specified in Part II or III of Schedule 2, (whether or not containing any additive) and for use in oral feeding to pet animals or farmed creatures, directly as such, or after processing, in the preparation of a compound feeding stuff or as a carrier of a premixture;

(a) OJ Rhif L279, 20.12.71, t.7 (OJ/SE 1971 (III), t.987), a ddiwygiwyd gan Erthygl 1 o Gyfarwyddeb 73/47/EEC (OJ Rhif L83, 30.3.73, t.35).

(b) OJ Rhif L155, 12.7.71, t.13 (OJ/SE 1971(II), t.480).

(c) OJ Rhif L279, 20.12.71, t.7 (OJ/SE 1871 (III), t.987). (Disodlwyd Rhan IV yn llwyr gan atodiad 1 i Gyfarwyddeb 84/4/EEC (OJ Rhif L15, 18.1.84, t.28). Disodlwyd yr Atodiad hwnnw yn ei dro yn llwyr gan Ran B o'r Atodiad i Gyfarwyddeb 98/64/EC (OJ Rhif L257, 19.9.98, t.14).

(a) OJ No. L332, 30.12.95, p.15. Last amended by Council Directive 1999/20/EC (OJ No. L80, 25.3.1999, p.20).

(b) The reference for the European Economic Area Agreement is OJ No. L1, 3.1.94, p.1. The reference for the Protocol signed on 17th March 1993 is OJ No. L1, 3.1.94, p.571.

(c) OJ No. L279, 20.12.71, p.7 (OJ/SE 1971 (III), p.987). (Part IV was replaced entirely by Annex 1 to Directive 84/4/EEC (OJ No. L15, 18.1.84, p.28). That Annex was in turn replaced entirely by Part B of the Annex to Directive 98/64/EC (OJ No. L257, 19.9.98, p.14)).

ystyr “porthiant mwynol” (“*mineral feeding stuff*”) yw porthiant cydategol a gyfansoddir o fwynau yn ben-naf ac sy’n cynnwys o leiaf 40% o ludw yn ôl ei bwysau;

ystyr “porthiant söotechnegol” (“*zootechnical feeding stuff*”) yw porthiant sy’n cynnwys ychwanegyn söotechnegol neu rag-gymysgedd söotechnegol;

ystyr “porthiant sy’n cymryd lle llaeth” (“*milk replacer feed*”) yw porthiant cyfansawdd a roddir ar ffurf sych, neu wedi’i ailgyfansoddi â swm penodedig o hylif, i fwydo anifeiliaid ifanc yn ychwanegol at laeth ar ôl llaeth y llo bach neu yn lle hwnnw neu i fwydo lloi y bwriedir eu lladd; ystyr “porthiant triagl” (“*molassed feeding stuff*”) yw porthiant cydategol wedi’i baratoi ar sail triogl ac sy’n cynnwys o leiaf 14%, yn ôl cyfanswm ei bwysau, o siwgr wedi’i fyne-gi fel swcros;

mae i “presgripsiwn MFS” (“*MFS prescription*”) yr ystyr a roddir i “MFS prescription” yn rheoliad 2(1) o’r Rheoliadau Porthiant Meddyginiaethol 1998(a);

ystyr “protein” (“*protein*”), ac eithrio ym mhara-graffau 12(2), 13, 28(2) a 29 o Ran I o Atodlen 4, ac yn ddarostynedig i baragraff (3) isod, yw’r mater a geir yn sgil trin porthiant yn unol â’r weithdrefn a nodir yn y dull dadansoddi ar gyfer protein a bennir ym Mhwynt 2 o Atodiad 1 i Gyfarwyddeb 72/199/EEC(b);

ystyr “protein sy’n cyfateb i fiwret, diwreidoisobwtan, wrea neu ffosffad wrea” (“*protein equivalent of biuret, diureidoisobutane, urea or urea phosphate*”), mewn perthynas â swm o fiwret, diwreidoisobwtan, wrea a nitrogen ffosffad wrea, yw’r swm hwnnw wedi’i luosi â 6.25;

ystyr “rhag-gymysgedd” (“*premixture*”) yw cymysgedd o ychwanegion, neu gymysgedd o un neu fwy o ychwanegion gyda sylweddau a ddefnyddir fel cari-wyr, y bwriedir ei ddefnyddio i weithgynhyrchu porthiant;

ystyr “rhag-gymysgedd söotechnegol” (“*zootechnical premixture*”) yw rhag-gymysgedd sy’n cynnwys ychwanegyn söotechnegol.

ystyr “rhestr genedlaethol” (“*national list*”) yw’r rhestr o sefydliadau a gyhoeddir yn Llundain gan yr Asiantaeth, at ddibenion Erthygl 6.1 o’r Gyfarwyddeb Sefydliadau;

“the Feed Materials Directive” (“*y Gyfarwyddeb Deunyddiau Porthiant*”) means Council Directive 96/25/EC on the circulation of feed materials, amend-ing Directives 70/524/EEC, 74/63/EEC, 82/471/EEC and 93/74/EEC and repealing Directive 77/101/EEC(a);

“feeding stuff” (“*porthiant*”), subject to regulation 12(11)(a), has the meaning attributed to it by section 66(1) as modified by regulation 18(1)(a);

“feeding stuff intended for a particular nutritional purpose” (“*porthiant a fwriedir ar gyfer diben maethi-adol penodol*”) means a compound feeding stuff, the composition or method of manufacture of which dis-tinguishes it from other feeding stuffs and from the type of products covered by the Medicated Feedingstuffs Directive, and in respect of which any indication is given that it is intended for a particular nutritional purpose;

“fibre” (“*ffeibr*”) means the organic matter calculated following the treatment of a feeding stuff in accor-dance with the procedure set out in the method of analysis for fibre specified in Point 3 of Annex 1 to Directive 73/46/EEC(b)

“identification note” (“*nodyn adnabod*”) has the same meaning as in the Additives Directive;

“intermediary” (“*cyfryngwr*”) has the meaning given by Article 1.3(c) of the Establishments Directive;

“mammalian meat and bone meal” (“*blawd cig ac esgyrn mamaliaid*”) has the meaning given in Article 4(1) of the Bovine Spongiform Encephalopathy (No. 2) Order 1996(c);

“the Medicated Feedingstuffs Directive” (“*y Gyfarwyddeb Porthiant Meddyginiaethol*”) means Council Directive 90/167/EEC laying down the condi-tions governing the preparation, placing on the market and use of medicated feedingstuffs in the Community(d);

“Member State” (“*Aelod-wladwriaeth*”) means a Member State other than the United Kingdom;

“MFS prescription” (“*presgripsiwn MFS*”) has the meaning given in regulation 2(1) of the Medicated Feedingstuffs Regulations 1998(e);

“micro-organism” (“*micro-organedd*”) has the meaning given by Article 2(aa) of the Additives Directive;

(a) O.S. 1998/1046.

(b) OJ Rhif L123, 29.5.72, t.6 (OJ/SE 1966-1972 atodiad, t.74), (Mae Pwynt 2 o Atodiad 1 wedi’i ddisodli gan yr Atodiad i Gyfarwyddeb 93/28/EEC (OJ Rhif 179, 22.7.93, t.8)).

(a) OJ No. L125, 23.5.96, p.35. Last amended by Directive 2000/16 of the European Parliament and the Council (OJ No. L105, 3.5.2000, p.36).

(b) OJ No. L83, 30.3.73, p.21. (Point 3 of Annex 1 was replaced entirely by the Annex to Directive 92/89/EEC) (OJ No. L344, 26.11.92, p.35)).

(c) S.I. 1996/3183. The relevant amending instrument is S.I. 1999/921.

(d) OJ No. L92, 7.4.90, p.42.

(e) S.I. 1998/1046.

mae i “rhoi mewn cylchrediad” yr un ystyr â “put into circulation” yn y Gyfarwydddeb Deunyddiau Porthiant, ond, yn rheoliad 12(3), (4) a (7), mae hefyd yn golygu mewnforio i Gymru o wlad nad yw’n un o Wladwriaethau Ardal Economaidd Ewrop nac yn rhan o un o Wladwriaethau Ardal Economaidd Ewrop;

mae i “sefydliad” yr ystyr a roddir i “establishment” gan Erthygl 1.3(b) o’r Gyfarwydddeb Sefydliadau;

ystyr “sefydliad a ganiateir gan y CE ar gyfer Erthygl 2.2(d)” (“*EC permitted Article 2.2(d) establishment*”) yw sefydliad a leolir mewn Aelod-wladwriaeth (heblaw sefydliad a gymeradwywyd gan y CE ar gyfer Erthygl 2.2(d) neu sefydliad y mae awdurdod cymwys yn yr Aelod-wladwriaeth wedi gwrthod ei gymeradwyo fel sefydliad o’r fath) –

- (a) os oedd porthiant cyfansawdd, o unrhyw fath y rheoleiddir ei weithgynhyrchu gan Erthygl 2.2(d) o’r Gyfarwydddeb Sefydliadau, yn cael ei weithgynhyrchu ar y sefydliad, gyda golwg ar ei roi mewn cylchrediad, ar 1 Ebrill 1998, a
- (b) y cafodd cais ei wneud mewn perthynas â’r sefydliad, cyn 1 Medi 1998, (a hwnnw heb ei benderfynu eto), i awdurdod cymwys yn yr Aelod-wladwriaeth, yn unol ag unrhyw ofynion yn yr Aelod-wladwriaeth ar gyfer gwneud ceisiadau o’r fath, am gymeradwyo’r sefydliad, yn unol â’r Gyfarwydddeb Sefydliadau, fel sefydliad lle y gall porthiant cyfansawdd o unrhyw fath felly gael ei weithgynhyrchu gyda golwg ar ei roi mewn cylchrediad;

ystyr “sefydliad a ganiateir gan y CE ar gyfer Erthygl 2.2(f)” (“*EC permitted Article 2.2(f) establishment*”) yw sefydliad mewn Aelod-wladwriaeth (heblaw sefydliad a gymeradwywyd gan y CE ar gyfer Erthygl 2.2(f) neu sefydliad y mae awdurdod cymwys yn yr Aelod-wladwriaeth wedi gwrthod ei gymeradwyo fel sefydliad o’r fath) –

- (a) os oedd porthiant cyfansawdd, o unrhyw fath y rheoleiddir ei gynhyrchu gan Erthygl 2.2(f) o’r Gyfarwydddeb Sefydliadau, yn cael ei gynhyrchu ar y sefydliad, ar gyfer anghenion daliad y cynhyrchydd yn unig, ar 1 Ebrill 1998, a
- (b) y cafodd cais ei wneud mewn perthynas â’r sefydliad, cyn 1 Medi 1998, (a hwnnw heb ei benderfynu eto), i awdurdod cymwys yn yr Aelod-wladwriaeth, yn unol ag unrhyw ofynion yn yr Aelod-wladwriaeth ar gyfer gwneud ceisiadau o’r fath, am gymeradwyo’r sefydliad, yn unol â’r Gyfarwydddeb Sefydliadau, fel sefydliad lle y gall porthiant cyfansawdd o unrhyw fath felly gael ei gynhyrchu ar gyfer anghenion daliad y cynhyrchydd yn unig;

“milk replacer feed” (“*porthiant sy’n cymryd lle llaeth*”) means a compound feeding stuff administered in dry form, or after reconstitution with a given quantity of liquid, for feeding young animals as a supplement to, or substitute for, post-colostrum milk or for feeding calves intended for slaughter;

“mineral feeding stuff” (“*porthiant mwynol*”) means a complementary feeding stuff which is composed mainly of minerals and which contains at least 40% by weight of ash;

“minimum storage life” (“*isafswm oes storio*”) means, in relation to a compound feeding stuff, the date until which, under proper storage conditions, that feeding stuff retains its specific properties;

“moisture” (“*lleithedd*”) means water and other volatile material determined in accordance with the procedure set out in the method of analysis for moisture specified in Part I of the Annex to Directive 71/393/EEC(a);

„molassed feeding stuff” (“*porthiant triagl*”) means a complementary feeding stuff prepared from molasses and which contains at least 14% by weight of total sugar expressed as sucrose;

“monograph” (“*monograff*”) has the same meaning as in the Additives Directive;

“name” (“*enw*”), in relation to any additive specified in any of Parts I to VIII of the Table to Schedule 3, means the name specified for that additive in that Table, and in relation to any other additive means its authorised name;

“the National Assembly” (“*y Cynulliad Cenedlaethol*”) means the National Assembly for Wales;

“national list” (“*rhestr genedlaethol*”) means the list of establishments published in London by the Agency, for the purposes of Article 6.1 of the Establishments Directive;

“oil” (“*olew*”) means the extract obtained following the treatment of a feeding stuff in accordance with the appropriate procedure set out in the method of analysis for oils and fats specified in Part IV of the Annex to Directive 71/393/EEC(b);

“particular nutritional purpose” (“*diben maethiadol penodol*”) means the purpose of satisfying any nutritional requirement of pet animals or productive livestock, the process of assimilation or absorption of which, or the metabolism of which, may be temporarily impaired, or is temporarily or permanently impaired, and which may therefore benefit from ingestion of a feeding stuff capable of achieving that purpose;

(a) OJ No. L279, 20.12.71, p.7 (OJ/SE 1971 (III), p.987), amended by Article 1 of Directive 73/47/EEC (OJ No.L83, 30.3.73, p.35).

(b) OJ No. L279, 20.12.71, p.7 (OJ/SE 1871 (III), p.987). (Part IV was replaced entirely by annex 1 to Directive 84/4/EEC (OJ No. L15, 18.1.84, p.28). That Annex was in turn replaced entirely by Part B of the annex to Directive 98/64/EC (OJ No.L257, 19.9.98, p.14). relevant amending instrument is S.I. 1999/921.



ystyr “sefydliad a gymeradwywyd gan y CE ar gyfer Erthygl 2.2(d)” (“*EC approved Article 2.2(d) establishment*”) yw sefydliad sydd wedi’i restru ar gofrestr o sefydliadau wedi’u cymeradwyo a gedwir gan awdurdod cymwys mewn Aelod-wladwriaeth, i weithredu Erthygl 5 o’r Gyfarwydddeb Sefydliadau, fel sefydliad lle y gall porthiant cyfansawdd, o unrhyw fath y rheoleiddir ei weithgynhyrchu gan Erthygl 2.2(d) o’r Gyfarwydddeb honno, gael ei weithgynhyrchu gyda golwg ar ei roi mewn cylchrediad;

ystyr “sefydliad a gymeradwywyd gan y CE ar gyfer Erthygl 2.2(f)” (“*EC approved Article 2.2(f) establishment*”) yw sefydliad sydd wedi’i restru ar gofrestr o sefydliadau wedi’u cymeradwyo a gedwir gan awdurdod cymwys mewn Aelod-wladwriaeth, i weithredu Erthygl 5 o’r Gyfarwydddeb Sefydliadau, fel sefydliad lle y gall porthiant cyfansawdd, o unrhyw fath y rheoleiddir ei gynhyrchu gan Erthygl 2.2(f) o’r Gyfarwydddeb honno, gael ei gynhyrchu ar gyfer anghenion daliad y cynhyrchydd yn unig;

mae i “sefydliad a gymeradwywyd gan y DU ar gyfer Erthygl 2.2(d)”, “sefydliad a gymeradwywyd gan y DU ar gyfer Erthygl 2.2(f)”, “sefydliad a ganiateir gan y DU ar gyfer Erthygl 2.2(d)” a “sefydliad a ganiateir gan y DU ar gyfer Erthygl 2.2(f)”, yn ddarostyngedig i reoliad 12(5) yr ystyron a roddir i “UK approved Article 2.2(d) establishment”, “UK approved Article 2.2(f) establishment”, “UK permitted Article 2.2(d) establishment” ac “UK permitted Article 2.2(f) establishment” gan reoliad 3 o’r Rheoliadau Porthiant (Sefydliadau a Chyfringwyr) 1999(a), fel y’u darllenir gyda rheoliad 2(4) o’r Rheoliadau hynny;

ystyr “starts” (“*starch*”) yw’r mater a geir yn sgil trin porthiant yn unol â’r weithdrefn a nodir yn yr ail ddull dadansoddi ar gyfer starts a bennir ym Mhwynt 1 o Atodiad 1 i Gyfarwydddeb 72/199/EEC(b);

ystyr “trydedd wlad” (“*third country*”) yw gwlad heblaw Aelod-wladwriaeth neu’r Deyrnas Unedig;

ystyr “ychwanegyn” (“*additive*”) yw sylwedd neu baratoad a ddefnyddir mewn maethiad anifeiliaid er mwyn –

- (a) effeithio’n ffafriol ar nodweddion deunyddiau porthiant, porthiant cyfansawdd neu gynhyrchion anifeiliaid,
- (b) bodloni anghenion anifeiliaid am faeth neu wella cynhyrchiant anifeiliaid (yn enwedig drwy effeithio ar y fflora gastro–berfeddol neu ar hydreuledd porthiant),
- (c) cynnwys yn y maethiad elfennau sy’n gydnaws â gwreiddu amcanion maethiadol penodol neu â diwallu anghenion anifeiliaid am faeth ar adeg benodol, neu

“pet animal” (“*anifail anwes*”) has the same meaning as in the Additives Directive;

“pet food” (“*bwyd anifeiliaid anwes*”) means a feeding stuff for pet animals and “compound pet food” (“*bwyd cyfansawdd anifeiliaid anwes*”) shall be construed accordingly;

“premixture” (“*rhag-gymysgedd*”) means a mixture of additives, or a mixture of one or more additives with substances used as carriers, intended for the manufacture of feeding stuffs;

“protein” (“*protein*”), except in paragraphs 12(2), 13, 28(2) and 29 of Part I of Schedule 4, and subject to paragraph (3) below, means the matter obtained as a result of treatment of a feeding stuff in accordance with the procedure set out in the method of analysis for protein specified in Point 2 of Annex 1 to Directive 72/199/EEC(a);

“protein equivalent of biuret, diureidoisobutane, urea or urea phosphate” (“*protein sy’n cyfateb i fiwret, diwreidoisobwtan, wrea neu ffosffad wrea*”), in relation to an amount of biuret, diureidoisobutane, urea and urea phosphate nitrogen, means that amount multiplied by 6.25;

“put into circulation” (“*rhoi mewn cylchrediad*”) has the same meaning as in the Feed Materials Directive, but, in regulation 12(3), (4) and (7), also means import into Wales from a country which is neither an European Economic Area State nor part of an European Economic Area State;

“registered veterinarian” (“*milfeddyg cofrestredig*”) has the same meaning as in the Medicated Feedingstuffs Directive;

“starch” (“*starts*”) means the matter obtained as the result of treatment of a feeding stuff in accordance with the procedure set out in the second method of analysis for starch specified in Point 1 of Annex 1 to Directive 72/199/EEC(b);

“third country” (“*trydedd wlad*”) means a country other than a Member State or the United Kingdom;

“UK approved Article 2.2(d) establishment” (“*sefydliad a gymeradwywyd gan y DU ar gyfer Erthygl 2.2(d)*”), “UK approved Article 2.2(f) establishment” (“*sefydliad a gymeradwywyd gan y DU ar gyfer Erthygl 2.2(f)*”), “UK permitted Article 2.2(d) establishment” (“*sefydliad a ganiateir gan y DU ar gyfer Erthygl 2.2(d)*”) and “UK permitted Article 2.2(f) establishment” (“*sefydliad a ganiateir gan y DU ar gyfer Erthygl 2.2(f)*”) have, subject to regulation 12(5), the meanings given by regulation 3 of the Feedingstuffs (Establishments and Intermediaries) Regulations

(a) O.S. 1999/1872 (y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i’r Rheoliadau hyn). (p) O.S. 1998/1046.

(b) OJ Rhif L123, 29.5.72, t.6 (OJ/SE 1966-1972 atodiad, t.74), (Mae Pwynt 1 o Atodiad 1 wedi’i ddisodli yn llwyr gan yr atodiad i Gyfarwydddeb 1999/79/EC (OJ Rhif L209, 7.8.1999, t.25)).

(a) OJ No. L123, 29.5.72, p.6 (OJ/SE 1966-1972 supplement, p.74), (Point 2 of Annex 1 has been replaced by the Annex to Directive 93/28/EEC (OJ No.179, 22.7.93, p.8)).

(b) OJ No. L123, 29.5.72, p.6 (OJ/SE 1966-1972 supplement, p.74), (Point 1 of Annex 1 has been replaced entirely by the annex to Directive 1999/79/EC (OJ No. L209, 7.8.1999, p.25)).

(ch) atal neu leihau'r effeithiau andwyol a achosir gan ysgarthiadau anifeiliaid neu wella amgylchedd anifeiliaid, ond nid yw'n cynnwys unrhyw beth sydd wedi'i hepgor o'r hyn a drafodir gan y Gyfarwydddeb Ychwanegion gan Erthygl 1.2 ac 1.3 ohoni; ac

ystyr "ychwanegyn söotechnegol" ("zootechnical additive") yw ychwanegyn sy'n perthyn i un neu fwy o'r grwpiau o ychwanegion a bennir yn Rhan I o Atodiad C i'r Gyfarwydddeb Ychwanegion.

(2) At ddibenion y Rheoliadau hyn, bernir bod yr ychwanegion a welir yn yr Adran o dan y pennawd "Radionuclide Binders", a rhifau 3 a 4 yn yr Adran o dan y pennawd "Micro-organisms", yn yr Atodiad i Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 2785/98(a) wedi'u "hawdurdodi" o fewn ystyr y term hwnnw fel y'i diffinnir ym mharagraff (1) uchod.

(3) At ddibenion paragraffau 12(1) a 28(1) o Ran I o Atodlen 4, mae i "protein" yr ystyr a roddir i "protein" gan erthygl 4(1) o Orchymyn Enseffalopathi Sbyngffurf Buchol (Rhif 2) 1996(b).

(4) Yn y Rheoliadau hyn, dehonglir "purdeb botanegol" yn unol â pharagraff 2 o Adran II o Ran A o'r Atodiad i'r Gyfarwydddeb Deunyddiau Porthiant.

(5) Dehonglir unrhyw gyfeiriad yn y Rheoliadau hyn at reoliad neu Atodlen â rhif fel cyfeiriad at y rheoliad neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Rheoliadau hyn, oni fydd y cyd-destun yn mynnu fel arall.

(6) Mewn unrhyw is-bennawd, darpariaeth destunol neu, yn ôl fel y digwydd, cofnod mewn tabl neu gofnod arall mewn Atodlen i'r Rheoliadau hyn, pan welir cyfeiriad â rhif at droednodyn, mae'r troednodyn â'r rhif hwnnw i'w drin fel pe bai'n ymhe-laethu ar yr is-bennawd neu'r ddarpariaeth destunol neu fel pe bai wedi'i gynnwys yn y cofnod yn y tabl neu'r cofnod arall.

(7) Onid yw'n gyfeiriad at adran o Ddeddf ben-odedig, dehonglir unrhyw gyfeiriad yn y Rheoliadau hyn at adran â rhif fel cyfeiriad at yr adran sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Ddeddf.

(8) Dehonglir unrhyw gyfeiriad yn y Rheoliadau hyn at un o Gyfarwyddbau neu Reoliadau'r Gymuned Ewropeaidd fel cyfeiriad at y Gyfarwydddeb honno, neu, yn ôl fel y digwydd, y Rheoliad hwnnw, fel y maent wedi'u diwygio ar ddyddiad gwneud y Rheoliadau hyn.

1999(a), as read with regulation 2(4) of those Regulations;

"zootechnical additive" ("ychwanegyn söotechnegol") means an additive belonging to one or more of the groups of additives specified in Part I of Annex C to the Additives Directive;

"zootechnical feeding stuff" ("porthiant söotechnegol") means a feeding stuff that contains a zootechnical additive or zootechnical premixture; and

"zootechnical premixture" ("rhag-gymysgedd söotechnegol") means a premixture that contains a zootechnical additive.

(2) The additives appearing in the Section headed "Radionuclide Binders", and numbers 3 and 4 in the Section headed "Micro-organisms", in the Annex to Commission Regulation (EC) No. 2785/98(b) shall be deemed for the purposes of these Regulations to be "authorised" within the meaning of that term as defined in paragraph (1) above.

(3) For the purposes of paragraphs 12(1) and 28(1) of Part I of Schedule 4, "protein" has the meaning given to it by article 4(1) of the Bovine Spongiform Encephalopathy (No. 2) Order 1996(c).

(4) In these Regulations, "botanical purity" shall be construed in accordance with paragraph 2 of Section II of Part A of the Annex to the Feed Materials Directive.

(5) Any reference in these Regulations to a numbered regulation or Schedule shall, unless the context otherwise requires, be construed as a reference to the regulation or Schedule bearing that number in these Regulations.

(6) Where, in any sub-heading, textual provision or, as the case may be, tabular or other entry in a Schedule to these Regulations, a numbered reference to a footnote appears, the footnote so numbered shall be treated as amplifying the sub-heading or textual provision or as included in the tabular or other entry.

(7) Any reference in these Regulations to a numbered section shall, unless the reference is to a section of a specified Act, be construed as a reference to the section bearing that number in the Act.

(8) Any reference in these Regulations to a European Community Directive or Regulation shall be construed as a reference to that Directive or, as the case may be, Regulation, as amended as at the date these Regulations are made.

(a) OJ Rhif L347, 23.12.98, t.21.

(b) O.S. 1996/3183.

(a) S.I. 1999/1872 (to which there are modifications not relevant to these Regulations).

(b) OJ No. L347, 23.12.98, p.21.

(c) S.I. 1996/3183.

## **Deunydd rhagnodedig**

3.-(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2) isod, at ddibenion y Rheoliadau hyn, y deunydd rhagnodedig at ddibenion adrannau 68(1) a 69(1) fydd unrhyw ddeunydd y gellir ei ddefnyddio fel porthiant, ac unrhyw ddeunydd y gellir ei ddefnyddio fel deunydd porthiant, fel rhag-gymysgedd neu fel ychwanegyn mewn porthiant o'r fath.

(2) At ddibenion paragraff (1) uchod, bydd adran 68(2) yn peidio â bod yn gymwys.

## **Materion y mae'n ofynnol eu cynnwys neu y caniateir eu cynnwys mewn gosodiad statudol neu eu datgan fel arall**

4. Bydd y manylion, yr wybodaeth a'r cyfarwyddiadau y mae'n ofynnol eu cynnwys, a'r manylion, yr wybodaeth a'r cyfarwyddiadau y caniateir eu cynnwys mewn gosodiad statudol, neu eu datgan fel arall, fel y'u pennir yn narpariaethau Atodlen 4 (ac eithrio mewn perthynas ag ychwanegion a rhag-gymysgeddau na chynhwysir mohonynt mewn porthiant) ac Atodlen 5 (mewn perthynas ag ychwanegion a rhag-gymysgeddau na chynhwysir mohonynt mewn porthiant) a rhaid iddynt gydymffurfio â'r darpariaethau hynny.

## **Mathau o osodiad statudol**

5.-(1) Yn ddarostyngedig i'r darpariaethau ynghylch symiau bach o borthiant a gynhwysir yn ail baragraff Erthygl 16.6 o'r Gyfarwydddeb Ychwanegion (y mae'n rhaid cadw ati, lle bo'n gymwys), ac i Erthygl 5.2 o'r Gyfarwydddeb Porthiant Cyfansawdd a pharagraff (2) isod, bydd y gosodiad statudol –

- (a) yn achos unrhyw ddeunydd rhagnodedig a gludir mewn pecyn neu gynhwysydd arall –
  - (i) yn label wedi'i gysylltu â'r pecyn neu'r cynhwysydd hwnnw; neu
  - (ii) wedi'i farcio'n eglur yn uniongyrchol arno, a
- (b) yn achos unrhyw ddeunydd rhagnodedig a gludir mewn swmp, ar ffurf dogfen sy'n ymwneud â phob llwyth ac a anfonir ynghyd â phob llwyth.

(2) Yn achos unrhyw ddeunydd porthiant a werthir mewn swm sydd heb fod yn fwy na 10 kg, ac a gyflenwir yn uniongyrchol i'r defnyddiwr terfynol, gall y gosodiad statudol gael ei roi ar ffurf hysbysiad ysgrifenedig.

(3) Rhaid i'r manylion, yr wybodaeth a'r cyfarwyddiadau y mae'n ofynnol eu cynnwys neu y caniateir eu cynnwys yn y gosodiad statudol –

- (a) bod ar wahân yn glir i unrhyw wybodaeth arall;
- (b) bod yn Saesneg neu yn Gymraeg, yn ddarostyngedig i baragraffau (5) a (6) isod; ac
- (c) bod yn ddarllenadwy ac yn annileadwy.

## **Prescribed material**

3.-(1) Subject to paragraph (2) below, for the purposes of these Regulations, the material prescribed for the purposes of sections 68(1) and 69(1) shall be any material usable as a feeding stuff, and any material usable as a feed material, premixture or additive in such a feeding stuff.

(2) For the purposes of paragraph (1) above, section 68(2) shall cease to apply.

## **Matters required or permitted to be contained in a statutory statement or otherwise declared**

4. The particulars, information and instructions required, and the particulars, information and instructions permitted, to be contained in a statutory statement, or otherwise declared, shall be as specified in, and shall comply with, the provisions of Schedule 4 (save in respect of additives and premixtures not contained in feeding stuffs) and Schedule 5 (in respect of additives and premixtures not contained in feeding stuffs).

## **Forms of statutory statement**

5.-(1) Subject to the provisions relating to small quantities of feeding stuffs contained in the second paragraph of Article 16.6 of the Additives Directive (which shall be observed, where applicable), and to Article 5.2 of the Compound Feedings Stuff Directive and paragraph (2) below, the statutory statement –

- (a) in the case of any prescribed material delivered in a package or other container, shall –
  - (i) be a label attached to that package or container; or
  - (ii) be clearly marked directly thereon, and
- (b) in the case of any prescribed material delivered in bulk, shall take the form of a document relating to and accompanying each consignment.

(2) In the case of any feed material sold in a quantity not exceeding 10 kg, and supplied directly to the final user, the statutory statement may be given in the form of a notice in writing.

(3) The particulars, information and instructions required or permitted to be contained in the statutory statement shall –

- (a) be clearly separate from any other information;
- (b) subject to paragraphs (5) and (6) below, be in English or in Welsh; and
- (c) be legible and indelible.

(4) At ddibenion adran 69 (marcio deunydd wedi'i baratoi i'w werthu), rhaid i ddeunydd rhagnodedig a gynhwysir mewn pecyn neu gynhwysydd arall gael ei labelu neu ei farcio yn y dull sydd wedi'i ragnodi mewn perthynas â deunydd o'r fath ym mhara-graff (1) neu, os yw'n gymwys, (2), uchod, a rhaid i'r deunydd hwnnw mewn swmp gael ei farcio drwy ardangos dogfen sy'n ymwneud ag ef mor agos at y deunydd ag y bo'n ymarferol.

(5) Yn achos unrhyw borthiant cyfansawdd neu ddeunydd porthiant y bwriedir eu hallforio i Aelod-wladwriaeth, rhaid i'r gosodiad statudol fod mewn un neu fwy o ieithoedd swyddogol y Gymuned, yn ôl pen-derfyniad yr Aelod-wladwriaeth honno.

(6) Yn achos unrhyw borthiant, nad yw'n borthiant sŏotechnegol, y bwriedir ei allforio i un o Wladwriaethau Ardal Economaidd Ewrop nad yw'n Aelod-wladwriaeth, rhaid i'r gosodiad statudol gydymffurfio â gofynion Erthygl 18 o'r Gyfarwydddeb Ychwanegion fel pe bai'r Wladwriaeth Ardal Economaidd Ewrop yn Aelod-wladwriaeth.

### **Cofrestr farciau**

**6.-(1)** Mewn perthynas ag unrhyw ddeunydd porthiant, caiff y materion y mae'n ofynnol eu marcio ar y deunydd hwnnw o dan adran 69(1) gael eu dynodi â marc y gellir darganfod ei ystyr drwy gyfeirio at gofrestr a gedwir yn unol â'r rheoliad hwn.

(2) Yn achos unrhyw borthiant cyfansawdd, nad yw o fformwla safonol sydd ar werth yn gyffredinol gan y gwerthwr o dan sylw, sy'n cael ei weithgynhyrchu neu ei gymysgu yn unswydd ar gyfer archeb prynwr –

- (a) rhaid dangos y math o borthiant, a'r enw neu'r enw masnach, a chyfeiriad neu swyddfa gofrestrdig y gweithgynhyrhydd a hynny mewn dogfen, label neu hysbysiad sy'n hawdd i'w weld ac yn gysylltiedig yn ddigamsyniol â'r deunydd, a
- (b) gall y materion eraill y mae'n ofynnol o dan adran 69(1) eu marcio ar y deunydd gael eu dynodi â marc y gellir darganfod ei ystyr drwy gyfeirio at gofrestr a gedwir yn unol â'r rheoliad hwn.

(3) Rhaid i'r gofrestr ddangos y materion hynny y mae'r marc yn ymwneud â hwy, sef materion y mae'n ofynnol eu cynnwys mewn gosodiad statudol ynghylch y deunydd y mae'r marc yn ymwneud ag ef, a dyddiad cofnodi'r manylion hynny yn y gofrestr, a rhaid i gofnodion ynghylch deunydd o fath a grybwyllir ym mhara-graff (2) uchod gynnwys enw a chyfeiriad y prynwr, dyddiad yr archeb a faint a archebwyd.

(4) For the purposes of section 69 (marking of material prepared for sale), prescribed material which is contained in a package or other container shall be labelled or marked in the manner prescribed in relation to such material in paragraph (1) or, where applicable, (2), above, and such material in bulk shall be marked by the display in as close proximity to the material as may be practicable of a document relating thereto.

(5) In the case of any compound feeding stuff or feed material which is intended for export to a Member State, the statutory statement shall be in one or more official Community languages, as determined by that Member State.

(6) In the case of any feeding stuff, not being a zootechnical feeding stuff, which is intended for export to a European Economic Area State which is not a Member State, the statutory statement shall comply with the requirements of Article 18 of the Additives Directive as if the European Economic Area State were a Member State.

### **Register of marks**

**6.-(1)** As respects any feed material, the matters required by section 69(1) to be marked on that material may be denoted by a mark, the meaning of which can be ascertained by reference to a register kept in accordance with this regulation.

(2) In the case of any compound feeding stuff, not being of a standard formulation on general sale by the seller concerned, which is specially manufactured or mixed to the order of a purchaser –

- (a) there shall be an indication in a document, label or notice, which is readily apparent and unequivocally associated with the material, of the type of feeding stuff, and of the name or trade name, and of the address or registered office, of the manufacturer, and
- (b) the other matters required by section 69(1) to be marked on the material may be denoted by a mark, the meaning of which can be ascertained by reference to a register kept in accordance with this regulation.

(3) The register shall show those matters to which the mark relates, being matters required to be contained in a statutory statement relating to the material to which the mark relates, and the date of entry of those particulars in the register, and entries relating to material of a kind mentioned in paragraph (2) above shall include the name and address of the purchaser, the date of the order and the amount ordered.

(4) Rhaid i'r gofrestr gael ei chadw fel cofnod ar wahân ar ffurf llyfr, wedi'i marcio ar y tu allan â "Cofrestr marciau o dan adran 69(6) o Ddeddf Amaethyddiaeth 1970" ac/neu "Register of marks under section 69(6) of the Agriculture Act 1970" a rhaid ei chadw ar y safle lle mae'r deunydd yn cael ei gadw er mwyn ei werthu yng nghwrs masnach i'w ddefnyddio fel porthiant, ac eithrio, os nad yw'r deunydd ar safle'r person y mae'r deunydd ar werth ganddo, ar y safle hwnnw y mae'n rhaid i'r gofrestr gael ei chadw.

(5) Chwe mis yw'r cyfnod y mae'n rhaid i'r gofrestr gael ei chadw'n ddiogel yn unol ag adran 69(7), gan gychwyn ar y diwrnod cyntaf na fydd dim o'r deunyddiau y cyfeirir atynt yn y gofrestr ar ôl ar y safle, i'w gwerthu fel y crybwyllwyd uchod.

(6) Rhaid i'r gofrestr gael ei gwneud a'i chadw gan y gwerthwr o dan sylw.

### Cyfyngiadau ar amrywiadau

7.-(1) Bydd i adran 74(2) effaith, mewn perthynas â Chymru, fel pe bai'r geiriau "or the Feeding Stuffs (Wales) Regulations 2001," wedi'u mewnosod ar ôl y geiriau "this part of this Act".

(2) At ddibenion adran 74, fel y'i diwygiwyd gan baragraff (1) uchod, bydd y cyfyngiadau ar amrywiadau mewn perthynas ag unrhyw gam-ddatgan mewn gosodiad, dogfen neu farc statudol, ynghylch natur, sylwedd neu ansawdd porthiant neu ddeunydd porthiant, pan yw'r gam-ddatgan yn ymwneud –

- (a) ag unrhyw gyfansoddyn dadansoddiadol a bennir yng ngholofn gyntaf –
  - (i) Rhan A o Atodlen 6 (os yw'r porthiant yn borthiant cyfansawdd na fwriedir ar gyfer anifeiliaid anwes),
  - (ii) Rhan B o Atodlen 6 (os yw'r porthiant yn fwyd cyfansawdd i anifeiliaid anwes), neu
  - (iii) Rhan C o Atodlen 6 (yn achos deunydd porthiant),
- (b) ag unrhyw fitamin neu elfen hybrin a bennir yng ngholofn gyntaf Rhan D o'r Atodlen honno, neu
- (c) â gwerth egni unrhyw borthiant a bennir yng ngholofn gyntaf Rhan E o'r Atodlen honno,

fel y'u nodwyd mewn perthynas â'r cyfansoddyn hwnnw neu, yn ôl fel y digwydd, y fitamin hwnnw, yr elfen brin honno neu'r porthiant hwnnw, yn y cofnod cyfatebol yn ail golofn y Rhan berthnasol o'r Atodlen honno.

(4) The register shall be kept as a separate record in book form, marked on the outside "Register of marks under section 69(6) of the Agriculture Act 1970" and/or "*Cofrestr marciau o dan adran 69(6) o Ddeddf Amaethyddiaeth 1970*" and shall be kept on the premises where the material is held for the purpose of selling it in the course of trade for use as a feeding stuff, save that, if the material is not in the premises of the person who has the material for sale, the register shall be kept on those premises.

(5) The period for which the register is to be preserved in accordance with section 69(7) shall be six months, commencing on the first day on which none of the materials referred to in the register remains on the premises, for sale as aforesaid.

(6) The register shall be made and kept by the seller concerned.

### Limits of variation

7.-(1) Section 74(2) shall have effect, in relation to Wales, as if, after the words "this part of this Act" there were inserted the words "or the Feeding Stuffs (Wales) Regulations 2001,".

(2) For the purposes of section 74, as modified by paragraph (1) above, the limits of variation in relation to any mis-statement in a statutory statement, document or mark, as to the nature, substance or quality of a feeding stuff or feed material, where the mis-statement relates to –

- (a) any analytical constituent specified in the first column of–
  - (i) Part A of Schedule 6 (where the feeding stuff is a compound feeding stuff not intended for pets),
  - (ii) Part B of Schedule 6 (where the feeding stuff is a compound pet food), or
  - (iii) Part C of Schedule 6 (in the case of a feed material),
- (b) any vitamin or trace element specified in the first column of Part D of that Schedule, or
- (c) the energy value of any feeding stuff specified in the first column of Part E of that Schedule,

shall be as set out with respect to that constituent or, as the case may be, vitamin, trace element or feeding stuff, in the corresponding entry in the second column of the relevant Part of that Schedule.

(3) At ddibenion Rhan IV o'r Ddeddf neu ddibenion y Rheoliadau hyn, rhaid peidio â thrin manylion mewn perthynas ag unrhyw ddeunydd a gynhwysir mewn gosodiad statudol, neu mewn unrhyw ddogfen, neu sydd wedi'u marcio ar y deunydd, neu a ddynodir gan farc ar y deunydd, fel pe baent yn ffug oherwydd unrhyw gam-ddatganiad arnynt ynghylch natur, sylwedd neu ansawdd y deunydd –

- (a) os cafodd y deunydd ei werthu gyntaf, neu ei roi mewn cylchrediad fel arall, mewn Aelod-wladwriaeth,
- (b) os nad oedd y cam-ddatganiad, adeg rhoi'r deunydd mewn cylchrediad, y tu hwnt i unrhyw gyfyngiadau ar amrywiadau a ragnodwyd mewn perthynas ag ef yn yr Aelod-wladwriaeth honno, ac
- (c) os oedd unrhyw gyfyngiadau o'r fath yn cydynd ag unrhyw Gyfarwydddeb gan y Gymuned Ewropeaidd a oedd yn gymwys.

### **Priodoli ystyron**

8. At ddibenion adran 70, priodolir i'r ymadroddion "porthiant cydategol", "porthiant cyflawn", "porthiant cyfansawdd", "porthiant", "porthiant yn lle llaeth", "porthiant mwynol" a "porthiant triagl" ym mhob achos yr ystyr a roddir i'r ymadrodd o dan sylw gan reoliad 2(1).

### **Dull pecynnu a selio porthiant cyfansawdd, ychwanegion a rhag-gymysgeddau**

9.-(1) Yn ddarostyngedig i baragraffau (2) a (3) isod, ni chaiff neb werthu porthiant cyfansawdd, nac unrhyw ychwanegyn neu rag-gymysgedd, oni bai ei fod mewn bag neu gynhwysydd, a'r bag neu'r cynhwysydd wedi'i selio fel bod y sêl, wrth i'r bag neu'r cynhwysydd gael ei agor, yn cael ei difrodi ac yn methu â chael ei hailddefnyddio.

(2) Gall porthiant cyfansawdd gael ei werthu mewn swmp, mewn bagiau heb eu selio neu mewn cynwysyddion heb eu selio, yn achos –

- (a) llwythi sy'n cael eu cludo rhwng cynhyrchwyr neu werthwyr porthiant cyfansawdd;
- (b) llwythi sy'n cael eu cludo oddi wrth gynhyrchwyr porthiant cyfansawdd i fentrau pecynnu;
- (c) porthiant cyfansawdd a geir drwy gymysgu grawnffwydydd neu ffrwythau cyfan;
- (d) blociau neu lyfeini;
- (e) symiau bach heb fod yn fwy na 50 kg o ran pwysau, a fwriedir ar gyfer y defnyddiwr terfynol ac sy'n cael eu cymryd yn uniongyrchol o fag neu gynhwysydd a oedd, yn union cyn eu hagog, yn cydymffurfio â'r ddarpariaeth ynghylch selio ym mharagraff (1) uchod.

(3) Particulars with respect to any material which are contained in a statutory statement, or in any document, or which are marked on, or denoted by a mark on, the material, shall not, for the purposes of Part IV of the Act or of these Regulations, be treated as false by reason of any mis-statement therein as to the nature, substance or quality of the material, if –

- (a) the material was first sold, or otherwise put into circulation, in a Member State,
- (b) the mis-statement did not, at the time of putting into circulation, exceed any limits of variation prescribed in relation thereto in that Member State, and
- (c) any such limits were in accordance with any applicable European Community Directive.

### **Assigned meanings**

8. For the purposes of section 70, there shall be assigned to the expressions "complementary feeding stuff", "complete feeding stuff", "compound feeding stuff", "feeding stuff", "milk replacer feed", "mineral feeding stuff" and "molassed feeding stuff" in each case the meaning given by regulation 2(1) to the expression concerned.

### **Manner of packaging and sealing compound feeding stuffs, additives and premixtures**

9.-(1) Subject to paragraphs (2) and (3) below, no person shall sell a compound feeding stuff, or any additive or premixture, unless it is in a bag or container, and that bag or container is sealed in such a way that, when the bag or container is opened, the seal is damaged and cannot be re-used.

(2) Compound feeding stuffs may be sold in bulk, in unsealed bags or in unsealed containers, in the case of –

- (a) deliveries between producers or sellers of compound feeding stuffs;
- (b) deliveries from producers of compound feeding stuffs to packaging enterprises;
- (c) compound feeding stuffs obtained by mixing grain or whole fruit;
- (d) blocks or licks;
- (e) small quantities not exceeding 50 kg in weight, which are intended for the final user and are taken directly from a bag or container which, before opening, complied with the sealing provision in paragraph (1) above.

(3) Gall porthiant cyfansawdd gael ei werthu mewn swmp, neu mewn cynwysyddion sydd heb eu selio, ond nid mewn bagiau sydd heb eu selio, yn achos –

- (a) llwythi sy'n cael eu cludo yn uniongyrchol oddi wrth y cynhyrchydd i'r defnyddiwr terfynol;
- (b) porthiant triagl sy'n cynnwys llai na thri deunydd porthiant;
- (c) porthiant ar ffurf pelenni.

### Rheoli deunyddiau porthiant

**10.-(1)** Ni chaiff neb roi mewn cylchrediad unrhyw ddeunydd porthiant o ddisgrifiad a bennir yng ngholofn (3) o Ran II o Atodlen 2, o dan enw heblaw'r enw a bennir yn y cofnod cyfatebol yng ngholofn (2) o'r Rhan honno.

(2) Ni chaiff neb roi mewn cylchrediad unrhyw ddeunydd porthiant o ddisgrifiad a bennir yng ngholofn (1) o Ran III o Atodlen 2, ac eithrio o dan enw neu ddisgrifiad, neu enw a disgrifiad (heblaw un a bennir yn y golofn honno neu yng ngholofn (2) o Ran II o'r Atodlen honno) sy'n ddigon penodol i ddangos natur y deunydd.

(3) Ni chaiff neb –

- (a) rhoi mewn cylchrediad unrhyw ddeunydd porthiant o ddisgrifiad a bennir yng ngholofn (3) o Ran II o Atodlen 2, a chanddo enw a bennir yn y cofnod cyfatebol yng ngholofn (2) o'r Rhan honno sy'n cynnwys enw neu derm cyffredin a bennir yng ngholofn (4) o Ran I o'r atodlen honno, na
- (b) gwerthu unrhyw borthiant cyfansawdd sy'n cynnwys unrhyw ddeunydd porthiant o'r fath, na'i feddiannu gyda golwg ar ei werthu,

oni bai, yn y naill achos neu'r llall, bod y deunydd porthiant wedi'i baratoi drwy'r broses a bennir, mewn perthynas â'r enw neu'r term cyffredin, yng ngholofn (2), ac a ddisgrifir yng ngholofn (3), o Ran I o'r Atodlen honno.

(4) Ni chaiff neb roi mewn cylchrediad unrhyw ddeunydd porthiant, na gwerthu unrhyw borthiant cyfansawdd sy'n cynnwys unrhyw ddeunydd porthiant, na'i feddiannu gyda golwg ar ei werthu, oni bai –

- (a) yn achos unrhyw ddeunydd porthiant o ddisgrifiad a bennir yng ngholofn (3) o Ran II o Atodlen 2 –
  - (i) nad yw purdeb botanegol y deunydd porthiant yn ôl ei bwysau yn llai na'r ganran

(3) Compound feeding stuffs may be sold in bulk, or in unsealed containers, but not in unsealed bags, in the case of –

- (a) direct deliveries from the producer to the final user;
- (b) molassed feeding stuffs consisting of less than three feed materials;
- (c) pelleted feeding stuffs.

### Control of feed materials

**10.-(1)** No person shall put into circulation any feed material of a description specified in column (3) of Part II of Schedule 2, under a name other than that specified in the corresponding entry in column (2) of that Part.

(2) No person shall put into circulation any feed material of a description specified in column (1) of Part III of Schedule 2, except under a name or description, or a name and description (other than one specified in that column or in column (2) of Part II of that Schedule) sufficiently specific to indicate the nature of the material.

(3) No person shall –

- (a) put into circulation any feed material of a description specified in column (3) of Part II of Schedule 2, and which has a name specified in the corresponding entry in column (2) of that Part which includes a common name or term specified in column (4) of Part I of that Schedule, or
- (b) sell, or have in possession with a view to sale, any compound feeding stuff containing any such feed material,

unless, in either case, the feed material was prepared by the process specified, in relation to the common name or term, in column (2), and described in column (3), of Part I of that Schedule.

(4) No person shall put into circulation any feed material, or sell, or have in possession with a view to sale, any compound feeding stuff containing any feed material, unless –

- (a) in the case of any feed material of a description specified in column (3) of Part II of Schedule 2 –
  - (i) the botanical purity by weight of the feed material is not less than the percentage (if

(os oes un) a bennir mewn perthynas ag ef yng ngholofn (3) o Ran II o'r Atodlen honno neu, os nad oes canran wedi'i phennu, nad yw'n llai na 95%; a

- (ii) bod y deunydd porthiant yn cydymffurfio â gofynion paragraff 1 o Adran II o Ran A o'r Atodiad i'r Gyfarwydddeb Deunyddiau Porthiant, a
- (b) yn achos unrhyw ddeunydd porthiant o ddisgrifiad a bennir yng ngholofn (1) o Ran III o'r Atodlen honno –
  - (i) nad yw purdeb botanegol y deunydd porthiant yn ôl ei bwysau yn llai na 95%; a
  - (ii) bod y deunydd porthiant yn cydymffurfio â gofynion paragraff 1 o Adran II fel y dywedwyd uchod.

(5) Ni chaiff neb ddefnyddio unrhyw ddeunydd porthiant i lynu deunydd porthiant arall, os yw swm y deunydd porthiant a ddefnyddir felly yn fwy na 3% o gyfanswm pwysau'r deunydd porthiant a lynir.

(6) Heb ragfarnu adrannau 73 a 73A, ni chaiff neb fewnforio unrhyw ddeunydd porthiant i Gymru o unrhyw wlad nad yw'n Aelod-wladwriaeth nac yn rhan arall o'r Deyrnas Unedig, ei gyflenwi (heblaw drwy werthu) na'i feddiannu gyda golwg ar ei gyflenwi, oni bai ei fod yn iachus, ac nad yw'n andwyol nac yn beryglus i greaduriaid fferm, i anifeiliaid anwes neu, drwy yfed neu fwyta cynhyrchion unrhyw anifeiliaid a fwydwyd ar y deunydd porthiant, i fodau dynol.

(7) Ni chaiff neb roi unrhyw ddeunydd porthiant mewn cylchrediad mewn modd sy'n debyg o gamarwain.

(8) Ym mharagraff 4(a) uchod cymerir nad yw "disgrifiad" yn cynnwys unrhyw ofyniad ynghylch purdeb botanegol.

## Rheoli ychwanegion mewn porthiant

**11.-(1)** Ni chaiff neb ddefnyddio ychwanegyn at ddibenion maethiad anifeiliaid oni bai bod dull ei ymgorffori mewn porthiant yn cyd-fynd â pharagraffau (2) i (4) isod.

(2) Yn ddarostyngedig i reoliad 21 a pharagraff (8) isod, ni chaiff neb gyflawni gweithgaredd perthnasol mewn perthynas ag ychwanegyn, oni bai

- (a) os nad yw'r ychwanegyn wedi'i gynnwys mewn unrhyw borthiant –
  - (i) bod yr ychwanegyn –
  - (aa) wedi'i ganiatáu i gael ei gynnwys mewn deunydd y bwriedir ei ddefnyddio fel porthiant yn unol â pharagraff 5(1) o Atodlen 3 neu,
  - (bb) wedi'i bennu yn unrhyw un o Rannau I i VIII o'r Tabl i Atodlen 3(a), neu

(a) Mae Rhannau I i VIII yn berthnasol i ychwanegion a redir gan Gyfarwydddebau'r Gymuned Ewropeaidd. Mae Rhan 1x yn berthnasol i ychwanegion a roelir gan Rheoliadau'r Gymuned Ewropeaidd un unig.

any) specified in relation to it in column (3) of Part II of that Schedule or, if none is specified, is not less than 95%; and

- (ii) the feed material complies with the requirements of paragraph 1 of Section II of Part A of the Annex to the Feed Materials Directive, and
- (b) in the case of any feed material of a description specified in column (1) of Part III of that Schedule –
  - (i) the botanical purity by weight of the feed material is not less than 95%; and
  - (ii) the feed material complies with the requirements of paragraph 1 of Section II as aforesaid.

(5) No person shall use any feed material to bind another feed material, if the quantity of the feed material so used exceeds 3% of the total weight of the feed material bound.

